

BRO MORGANNWG

ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT

CRYNODEB GWEITHREDOL



2022

Cymunedau
Cryf â

Dyfodol
Disglair

Cynnwys

	Tudalennau
1 Cyflwyniad	3-4
2 Bylchau Allweddol	5 - 10
3 Argymhellion Allweddol	11
4 Deilliannau allweddol: Cyflenwad	12 -14
5 Deilliannau allweddol: Galw	15 -19

DRAFT

1 Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Aseiad Awdurdod Lleol) (Cymru) 2016, a Chanllawiau Statudol diweddar Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym Mis Gorffennaf 2016 yn gosod Dyletswydd Statudol ar awdurdod lleol i gynnal Aseiad Digonoldeb Gofal Plant llawn bob pum mlynedd.

Mae'r Aseiad yn gam angenrheidiol at sicrhau darpariaeth gofal plant 'digonol' yn y Fro.

Ei nod yw adnabod bylchau thema gofal plant (neu rai a all ddigwydd), a gwneud argymhellion fydd yn cwrdd ag anghenion rhieni a gofalwyr sy'n byw yn yr ardal.

1.2 Yn ychwanegol at Ganllawiau Statudol 2016 Llywodraeth Cymru, ym Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw ategol i awdurdodau lleol ynghylch eu proses Aseiad Digonoldeb Gofal Plant (ADGP) am 2022. Yr oedd hyn yn dweud, yn eu hasesiad llawn yn 2022, y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol Cymru adrodd am sut yr effeithiodd pandemig COVID-19 ar y cyflenwad a'r galw am ofal plant – a chynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol.

1.3 Cynhaliwyd ADGP 2022 gyda chwmni ymchwil annibynnol o'r enw Place Group Ltd mewn partneriaeth â Swyddogion Cyngor Bro Morgannwg.

Wrth gynnal Aseiad Digonoldeb Gofal Plant llawn am 2022, gwnaed y mathau canlynol o ymchwil:

- Dadansoddiad o ddata demograffig a chymdeithasol-economaidd o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Stats Cymru er mwyn rhoi syniad o broffil y ffactorau sy'n effeithio ar y galw am ofal plant ledled y Fro
- Ymgynghori a thros 500 o rieni/gofalwyr lleol trwy gyfrwng arolwg ar ffurf holiadur a wnaed yn Hydref 2021 gan Lywodraeth Cymru
- Ymgynghori â'r canlynol yn y Fro: (a) darparwyr gofal dydd llawn; (b) darparwyr gofal sesiynol; (c) gwarchodwyr plant cofrestredig a; (d) darparwyr gofal plant tu allan i'r ysgol ym mis Tachwedd 2021, i ategu...
- Dadansoddiad o ddata'r Datganiad Hunanaseiad Gwasanaeth (SASS) a gwblhawyd ar-lein gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig lleol i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym Mehefin 2021
- Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc mewn partneriaeth â chydweithwyr oedd yn cynnal Aseiad Digonoldeb Chwarae 2022 y Fro
- Ymgynghori gyda chyflogwyr lleol
- Ymgynghori gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Dadansoddiad o ddata ategol a gafwyd o amrywiaeth o ffynonellau ychwanegol gan gynnwys AGC
- Dadansoddiad o ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

1.4 Yn ychwanegol, fel cyd-destun, cyflwynodd Deddf Gofal Plant 2006 ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardal i alluogi rhieni i gymryd neu aros mewn gwaith neu i ddilyn addysg a hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Y cyfarwyddyd oedd, wrth bennu a yw'r ddarpariaeth gofal plant yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion hyn, **bod yn rhaid i awdurdodau lleol Cymru gadw mewn cof ddarpariaeth gofal plant sy'n cynnwys defnyddio'r iaith Gymraeg.**

1.5 Yn olaf, fel cyd-destun, mae Cynllun Lles Lleol y Fro yn amlwg yn berthnasol i bwnc gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, ac un o'i amcanion allweddol yw: ***rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant. Bydd cynllunwyr strategaeth gofal plant yn y Fro felly yn parhau i asio eu rolau a'u cyfrifoldebau ynglŷn â'r ffordd orau iddynt gefnogi amcanion cyson y Cynllun Lles.***

Mae'r rhai sy'n gyfrifol am strategaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn y Fro wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid Lles i chwarae rhan hanfodol mewn cydweithio i atal deilliannau gwael i genedlaethau'r dyfodol trwy (eto) roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant.

DRAFT

2 Bylchau Allweddol

Mae'r rhaglen ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Asesiad Digonoldeb Gofal Plant Bro Morgannwg 2022 wedi galluogi adnabod y bylchau neu themâu canlynol y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i'w monitro, sef:

2.1 Soniodd rhyw 1:5 o'r holl rieni a ymatebodd am eu dymuniad i allu parhau i fynd at ofal plant ffurfiol er mwyn *“dychwelyd i normal/sut yr oedd pethau”* yn arbennig yng nghyswllt amseroedd agor (cynharach) clybiau brecwast ac ail-agor eu clybiau wedi'r ysgol, cyn pandemig COVID-19. Yr oedd adborth ansoddol penodol yn cynnwys:

“Gorffennodd fy nghlwb wedi'r ysgol yn ein hysgol gynradd yn ystod COVID-19 ac nid yw wedi ail-gychwyn”.

“Nid yw'n clwb wedi'r ysgol wedi ail-agor ers y pandemig ond mae'n rhaid i mi ddychwelyd i'r swyddfa i weithio, sy'n golygu bod yn rhaid i mi ddibynnu ar gyfeillion sydd hefyd yn cael anawsterau”.

“Mae gan i broblemau mawr ar ôl i'r clwb wedi'r ysgol gau. Rwyf yn defnyddio gwarchodwr plant nawr, ond buasai'n well gen i iddo fod yn ôl yn y clwb wedi'r ysgol nawr fod COVID-19 'drosodd”.

“Ychydig o ddewisiadau wedi'r ysgol sydd yn ysgol fy mhientyn... a bu'n rhaid i mi wrthod swyddi am nad oedd modd i mi ddod o hyd i ofal plant addas”.

“Mae ein hysgol wedi rhoi'r gorau i ofal plant wedi'r ysgol ...”.

Dylai'r awdurdod lleol felly barhau â'i bolisi o fonitro'r graddau y mae hyn yn digwydd yn 2022-2023 (yn enwedig yn ardaloedd gwledig y sir) – **ac sy'n cynrychioli bwlch digonoldeb** – nawr fod y cyfyngiadau cysylltiedig â phandemig COVID-19 yn parhau i gael eu llacio.

2.2 Yr oedd 22% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021 ynghylch a oedd gofal plant yn rhwystr iddynt gymryd gwaith neu hyfforddiant wedi dynodi: *Tueddu i Gytuno*. Hefyd, (unwaith eto) dywedodd 22% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: *Cytuno'n Gryf*.

Dengys hyn fod 44% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn credu – i raddau – fod gofal plant, rywbryd yn ddiweddar, wedi bod yn rhwystr iddynt fynd at waith neu hyfforddiant.

I ategu'r adborth hwn, dywedodd 21% o rieni/gofalwyr a ymatebodd, yn y flwyddyn ddiwethaf, fod materion ynghylch gofal plant wedi effeithio ar eu gallu i 'gymryd swydd newydd' – a dywedodd 19% o rieni/gofalwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, fod materion ynghylch gofal plant wedi effeithio ar eu gallu hwy neu bartner i allu 'cyrchu hyfforddiant'.

Felly, gellir dod i'r casgliad, i raddau yn y Fro, fod gofal plant addas yn parhau i fod yn her i rai rhieni pan ddaw'n fater o gefnogi eu cyflogadwyedd.

2.3 Y duedd a welwyd amlaf dros y ddwy flynedd a aeth heibio, yr adroddwyd amdano gan ddarparwyr mewn lleoliadau a gwarchodwyr plant oedd bod rhieni eisiau mwy o hyblygrwydd. Yr ail duedd yr adroddwyd amdano amlaf (ac un oedd yn gysylltiedig) oedd cynnydd yn nifer y rhieni oedd eisiau oriau agor estynedig/hwy. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r arolwg yn hydref 2021, dim ond 4% o ddarparwyr gofal plant a ymatebodd oedd yn dweud fod ganddynt gynlluniau i ymestyn eu horiau agor.

Mae'n amlwg fod bwll yn bodoli gan fod rhai rhieni yn ddelfrydol eisiau oriau agor cynharach ac oriau cau hwyrach, ac yn methu lleoli a chyrchu darpariaeth o'r fath.

2.4 Ynghylch pwynt 2.3., dim ond 6% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd a 10% o warchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd oedd yn dweud fod ganddynt gynlluniau ar gael dros y 18 mis nesaf i 'ateb anghenion gweithwyr shifft/y sawl sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol' yn well.

Fodd bynnag, cafwyd swm nodedig o ymateb ansoddol o ganlyniad i'r arolwg rhieni gan Lywodraeth Cymru a ddywedodd (o bosib o ganlyniad i COVID-19) mai cynyddu yr oedd y gofyniad am weithio shifftiau a gweithio y tu allan i oriau traddodiadol 8am-6pm.

Mae'n bwysig nodi y bydd y sector gwarchod plant (yn ogystal â'r sector gofal plant cofrestredig ehangach) o bosib yn hanfodol i ymdrin â'r angen hwn, o gofio ei allu traddodiadol i gynnig mwy o hyblygrwydd yng nghyswllt amseroedd agor – ac yn 2022, mae 103 o warchodwyr plant o gymharu â 166 yn 2017.

2.5 Dywedodd 20% o'r holl leoliadau/grwpiau a ymatebodd eu bod wedi gweld aelodau o'u gweithlu yn gadael oherwydd y pandemig, oedd yn amlygu thema sy'n dod i'r golwg ledled Cymru, sef bod cadw a recriwtio yn broblem sy'n cynyddu. Yn wir, ym mhen arall y 'bibell', gellir gweld, yn yr ymgynghoriad yn hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar, fod y mwyafrif, 40%, yn dweud nad oedd ganddynt gynlluniau ar ddiwedd 2021 i recriwtio unrhyw brentisiaid.

(Dylid nodi hefyd, o ran y problemau sy'n effeithio ar weithlu gofal plant y Fro, fod tua 1:4 o holl gynrychiolwyr y darparwyr gofal plant yr ymgynghorwyd â hwy yn hydref 2021 wedi dweud eu bod naill ai hwy eu hunain (gan gynnwys gwarchodwyr plant) neu aelodau o'u tîm/gweithlu wedi cael anawsterau a phroblemau iechyd meddwl pan oedd pandemig COVID-10 ar ei waethaf neu eu bod yn parhau i brofi hyn).

2.6 Yn gynnar yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau o ran gwella gallu rhieni a theuluoedd sydd â phlant dwyflwydd oed i gyrchu darpariaeth gofal plant cyffredinol sy'n cael ei gyllido. Er mwyn cwrdd â'r galw posib am hyn yn y dyfodol, dylai Cyngor Bro Morgannwg gadw mewn cof fod: 1. 36% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar wedi dweud fod ganddynt restr aros yn hydref 2021 - a hynny ran amlaf i lefydd i blant dwyflwydd oed; 2. Tuedd a grybwyllwyd dro ar ôl tro gan ddarparwyr gofal plant perthnasol oedd cynnydd yn y galw am lefydd i blant dwyflwydd.

Felly, *fe all* bwlch digonoldeb godi i blant dwyflwydd wrth i'r rhaglen o lefydd i bob plentyn o'r oed hwnnw ddechrau cael ei chyflwyno ym Medi 2022.

Dywedodd 43% o'r rhieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu cyrchu *mw*y o ofal plant yn y blynyddoedd i ddod – ac yn amlach na heb, gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd hwn. Yn wir, y ddau fath o ofal plant a grybwyllwyd amlaf gan y rhieni perthnasol oedd:

- Clwb Cyn-Ysgol/Brecwast = 49% - o'r rhieni perthnasol
- Clwb Wedi'r Ysgol = 43% - o'r rhieni perthnasol

Fodd bynnag, dywedodd rhieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021 yn aml ac yn gyson eu bod yn cael anhawster cyrchu gofal cofleidiol oedd yn ofal plant y tu allan i'r ysgol. Felly, gallai hyn awgrymu bod bwlch digonoldeb neu y gallai un ymddangos, yn enwedig wrth i boblogaeth y Fro barhau i gynyddu.

2.8 Dywedodd 9% o rieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg o alw gan rieni yn Hydref 2021 fod ganddynt o leiaf un plentyn gyda neu heb ddiagnosis o anghenion dysgu ychwanegol. Gwelwyd o adborth ansoddol o'r arolwg fod llawer o rieni yn dweud ei bod yn her cael a/neu sicrhau gofal plant ffurfiol oedd yn addas a fforddiadwy. Er enghraifft, yr oedd yr adborth yn cynnwys:

"Mae dod o hyd i ofal am blentyn anabl bron yn amhosib, neu mae'r hyn sydd yno [yn fy mhrofiad i] yn ddrutach. Mae hyn yn golygu bod angen i ni ddibynnu ar hyblygrwydd cyflogwyr a chefnogaeth teulu i'n galluogi ni'n dau i weithio. Mae'n gallu bod yn straenllyd iawn ..."

“Mae fy merch saith mlwydd oed yn ‘Awtistig’, ac yr wyf yn pryderu am ddod o hyd i ofal addas wedi’r ysgol”.

“Mae gen i blentyn hŷn gydag awtistiaeth ac anawsterau dysgu. [Yn fy mhrofiad i] does yna fawr ddim gofal plant i’w gael sydd ar gyfer plant fel fy merch. Mae angen dybryd am ofal cofleidiol i blant mewn ysgolion arbennig. Dylai rhieni plant anabl allu mynd at waith fel pawb arall”.

“Dwyf i erioed wedi gallu dod o hyd i ddarparwr gofal plant i edrych ar ôl fy mhlentyn anabl”.

Hefyd, yn ychwanegol i ymgynghoriad hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant, dywedodd 71% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a bron i 50% o warchodwyr plant cofrestredig fod COVID-19 wedi cael effaith ar ddatblygiad blynyddoedd cynnar plant oedd yn dod i’w darpariaeth, gyda’r ymatebwyr yn aml yn dweud y cafwyd effaith andwyol ar iaith a lleferydd plant a/neu eu bod wedi gweld nad oedd rhai plant yn cymdeithasu gyda phlant eraill/wedi gweld mwy o bryder am wahanu.

Er i draean o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar ddweud bod ganddynt gynlluniau i wella mwy ar y ddarpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, dim ond 6% o warchodwyr plant a ddywedodd fod ganddynt gynlluniau o’r fath.

Y casgliad felly yw wrth i nifer y plant ADY gynyddu, rhaid cael amllder cyfatebol o ddarparwyr gofal plant sydd â’r gallu i ddarparu llefydd addas a fforddiadwy i’r plant hyn, i liniaru’r bwlch digonoldeb.

2.9 Mae tuedd i nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal y Fro gynyddu’r gyson o flwyddyn i flwyddyn, fel y mae nifer y rhieni a’r teuluoedd sy’n gofyn am ddarpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 2021, (dim ond) chwech o ddarparwyr gofal plant - tri o ddarparwyr gofal dydd llawn a thri o ddarparwyr gofal dydd sesiynol - a ddywedodd mai Cymraeg oedd prif iaith darparu eu gwasanaeth.

Mae’n galonogol fod 41% o’r holl ddarparwyr gofal plant wedi dweud yn hydref 2021 fod ganddynt naill ai gynlluniau pendant i greu mwy o lefydd siarad/cyfrwng Cymraeg neu fod hyn yn rhywbeth y buasant yn ei ystyried; fodd bynnag rhaid i’r awdurdod lleol barhau i fonitro nifer y gallu i gyrchu llefydd gofal plant cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr ag uchelgais teuluoedd penodol.

2.10 Y rhwystr amlaf i gyrchu gofal plant ffurfiol a amlygwyd gan rieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru oedd fod cost gofal plant wedi eu hatal rhag cyrchu darpariaeth ffurfiol. Felly, mae angen i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Bro Morgannwg **barhau i** gyfleu a dosbarthu gwybodaeth am fentrau presennol gofal plant sy’n cael eu cyllid a *mentrau newydd* sydd ar y gweill megis: (a) ymestyn y Cynnig Gofal Plant

i rieni mewn addysg a hyfforddiant a rhieni sydd ar absenoldeb mabwysiadu a: (b) y cynnig o ofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd yn ystod y tair blynedd nesaf, o gofio pa mor rhesymegol yw y bydd y ddwy fenter hyn o les i deuluoedd penodol.

Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried y ffaith fod 32% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd i'r arolwg ADGP yn hydref 2021 wedi dweud nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau i farchnata bodolaeth Gofal Plant Di-Dreth.

2.11 Yn ei hanfod, rhagwelir (gan Lywodraeth Cymru) y bydd poblogaeth y Fro yn **cynyddu** o 6% rhwng 2018 – 2028.

Petai'r ganran hon yn cael ei chymhwyso i boblogaeth y plant 0-4 oed yn 2020, byddai'n golygu tua 430 yn fwy o blant 0-4 oed yn byw yma erbyn 2027-2028, ac o gymhwyso'r ganran hon i boblogaeth y plant 5-14 oed yn 2020, byddai'n golygu tua 965 yn fwy o blant 5-14 oed yn byw yma erbyn 2027-2028. Bydd y cynnydd hwn yn y boblogaeth yn digwydd trwy fod mwy o bobl yn dod i mewn i'r Fro nag sy'n gadael, a datblygiadau tai newydd ar safleoedd mewn Cyfnod 2 datblygiad Glan Môr y Barri, datblygiad Eglwys Brewis yn ward Sain Tathan a'r datblygiad yn y Bontfaen.

Gellir nodi hefyd pan wahoddwyd rhieni/gofalwyr (fel rhan o arolwg rhieni gan Lywodraeth Cymru) i ddweud pa fath(au) o ofal plant yr oeddent yn rhagweld y byddai angen 'mwy ohono' dros y ddwy flynedd ddiwethaf, **yr oedd hyn yn aml am glwb brecwast (64% o rieni perthnasol) neu glwb wedi'r ysgol (58%)** ac efallai y byddai angen i gynllunwyr gofal plant strategeiddio er mwyn sicrhau na fydd y cynnydd yn y boblogaeth yn creu bwlch mewn mynediad at y math hwn o ddarpariaeth, mewn ysgolion a chyda darparwyr y sector preifat.

2.12 Mae ardaloedd daeryddol penodol lle mae poblogaeth gymharol uchel o garfannau o blant. Fodd bynnag mae yma fath cymharol isel o (fath perthnasol o) ddarpariaeth gofal plant cofrestredig.

Er enghraifft:

Mae ward Cadoc yn cyfrif am 655 (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) o blant 0-4 oed – fodd bynnag yn 2022, nid oes dim darparwr gofal dydd llawn na darparwr gofal sesiynol yn y ward.

Mae gan ward Cadoc hefyd (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) 905 o blant 5-11 oed yn byw – yn 2022, nid oes dim darparwr gofal dydd llawn na darparwyr gofal sesiynol yn y ward.

Mae gan ward Gibbonsdown 717 (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) o blant 5-11 oed yn byw – fodd bynnag yn 2022, nid oedd unrhyw ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yn y ward

Mae gan ward Baruc 411 (nifer cymharol uchel - o gymharu â wardiau eraill) o blant 0-4 oed - fodd bynnag, yn 2022 (dim ond) 153 o lefydd hygyrch gyda darparwyr gofal plant cofrestredig y blynyddoedd cynnar sydd yn y ward hon. Dylid edrych ar hyn hefyd yng nghyd-destun deilliant arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol : dywedodd un fod ganddo lefydd gwag ar y pryd, sef cyfanswm o 10 lle. Fodd bynnag, dywedodd un fod ganddo restr aros, sef cyfanswm o 61 lle.

Yn yr un modd, yn ward Buttrills mae 425 o blant 0-4 oed (nifer cymharol uchel – o gymharu â wardiau eraill) . Fodd bynnag, yn 2022 (dim ond) 147 o lefydd hygyrch gyda darparwyr gofal plant cofrestredig y blynyddoedd cynnar sydd yn y ward hon. Dylid edrych ar hyn hefyd yng nghyd-destun deilliant arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol: dywedodd tri fod ganddynt lefydd gwag ar y pryd, sef cyfanswm o 14 lle i blant 0-4 oed. Fodd bynnag, dywedodd dau fod ganddynt restr aros, sef 5 lle.

DRAFT

3 Argymhellion Allweddol

Ochr yn ochr â'r dadansoddiad bylchau, datblygwyd yr argymhellion a ganlyn ac fe'u hadlewyrchir yng Nghynllun Gweithredu Digonoldeb Gofal Plant Bro Morgannwg 2022-2027.

- 3.1 **Argymhelliad 1:** Dylai swyddogion Cyngor Bro Morgannwg, ynghyd â phartneriaid proffesiynol cyflogadwyedd, barhau i weithio mewn partneriaeth i ymdrin â chefnogaeth ariannol i rieni a gofawyr lleol, a'i fonitro.
- 3.2 **Argymhelliad 2:** Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i fonitro amseroedd agor a chau darparwyr gofal plant, ynghyd â chyfleoedd am 'hyblygrwydd' sy'n derbyn patrymau gweithio teuluoedd Bro Morgannwg, gan roi blaenoriaeth i ganolbwyntio ar amseroedd agor yn gynnar yn y bore ym mhob lleoliad gofal plant.
- 3.3 **Argymhelliad 3:** Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i arwain ar gadw a recriwtio (gan gynnwys prentisiaid) eu gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol. Dylent ddangos i bartneriaid allweddol megis arweinwyr mewn darparwyr gofal plant, Coleg Caerdydd a'r Fro a phartneriaid CWLWM eu hymrwymiad i ymgyrch recriwtio a chadw.
- 3.4 **Argymhelliad 4:** Dylai Cyngor Bro Morgannwg roi blaenoriaeth i sefydlu mwy o lefydd i blant 3 a 4 oed trwy ehangu'r cyllid i'r Cynnig Gofal Plant ynghyd â llefydd i'r garfan o blant dwyflwydd oed yn y sector cyn-ysgol - er mwyn helpu i gwrdd â chynnydd tebygol yn y galw am lefydd o'r fath, a fydd yn ganlyniad cenedlaethol i raglen Llywodraeth Cymru o ofal plant cyffredinol i blant dwyflwydd, a gychwynnir yn hydref 2022.
- 3.5 **Argymhelliad 5:** Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i gefnogi ei sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae er mwyn gweithredu uchelgais y Rhaglen Trawsnewid ADY, a gychwynnwyd yn y wlad yn hydref 2021.
- 3.6 **Argymhelliad 6:** Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i fod yn ymwybodol y gall nifer y rhieni a phlant sydd â diddordeb mewn gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu wrth i broffil a deilliannau Strategaeth Cymraeg 2050 fynd rhagddo, ac er nad yw ehangu darpariaeth o'r fath yn flaenoriaeth yn syth, dylai barhau i fod yn rhan o feddwl a chynllunio ar gyfer darpariaethau/llefydd newydd.
- 3.7 **Argymhelliad 7:** Dylai Cyngor Bro Morgannwg barhau i roi blaenoriaeth i gefnogi'r sector gofal plant i helpu i adfer o COVID trwy grantiau i gefnogi cynaliadwyedd a/neu gynyddu'r llefydd gofal plant - a rhannu gwybodaeth a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru am newidiadau yn y cyngor a'r cyfarwyddyd am COVID-19. Dylai hefyd fod yn ymwybodol o'r heriau a wynebir gan y sector a rhoi cyfle i fynegi pryderon trwy fforymau a gynhelir bob tymor.

4 Cyflenwad Sylfaenol Gofal Plant yn y Fro

4.1 Tabl 1 - Ym mis Chwefror 2022, adroddodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am y nifer canlynol o ddarparwyr gofal plant ym Mro Morgannwg fesul math:

Math o ofal plant	Nifer darparwyr gofal plant	Nifer llefydd gofal plant
Gofal dydd llawn	40	1,747
Gofal sesiynol	16	447
Gwarchodwyr plant	103	818
Gofal tu allan i'r ysgol	18	785
Creche	2	24
Cyfanswm	180	3,821

4.2 I ategu Tabl 2 uchod, adroddodd prif Asesiad Digonoldeb Gofal Plant 2022:

- a) O ran y darparwyr/lleoliadau gofal plant sydd wedi dadgofrestru yn y 5 mlynedd ddiwethaf ers 2017: mae 74 lleoliad wedi cau/dod i ben, sydd yn golled net yn y Fro o 536 lle. Yn benodol:
- Gadawodd 61 o warchodwyr plant y sector hwnnw ar draws y Fro
 - 1 meithrinfa dydd a chlwb gwyliau yn y Barri wedi cau
 - 2 glwb wedi'r ysgol, 12 yn Llandochoau ac un yn y Barri wedi cau
 - 2 grŵp chwarae, 1 yn ward Llanbedr y Fro ac 1 ym Mhenarth wedi cau
 - 1 creche yn y Barri hefyd wedi cau.

Fodd bynnag, cofrestrodd 27 o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant gydag AGC ers 2017, gan ychwanegu 684 o lefydd:

- 8 gwarchodwr plant
- 8 lleoliad gofal dydd llawn
- 4 lleoliad gofal dydd sesiynol
- 5 lleoliad tu allan i'r ysgol.

4.3 Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) y Fro yn parhau i fod â rôl leol allweddol o ran darparu gwybodaeth am ddewisiadau gofal plant lleol.

Gwasanaeth gwybodaeth un-stop yw GGD i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc 0-20 oed ym Mro Morgannwg, yn ogystal ag i weithwyr proffesiynol gyda theuluoedd. Gall rhieni gysylltu â'r GGD am wybodaeth am eu dewisiadau gofal plant, help gyda chostau gofal plant, grwpiau a gweithgareddau i blant a theuluoedd, yn ogystal â gwasanaethau cefnogi.

Mae'r GGD yn cynnal cronfa ddata o leoliadau gofal plant settings, yn ogystal â gweithgareddau a gwasanaethau eraill, ac yn defnyddio gwefan Dewis Cymru i gynnal y wybodaeth hon, sy'n bwydo drwodd i wefan genedlaethol Gwybodaeth Gofal Plant Cymru: [Gwybodaeth Gofal Plant Cymru](#)


Gall rhieni, darparwyr a gweithwyr proffesiynol gysylltu'n uniongyrchol â'r GGD dros y ffôn, trwy e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, a gallant gael llawer o wybodaeth ar dudalennau gwe y GGD , gan gynnwys help gyda chostau gofal plant, cefnogaeth gyda magu plant, cychwyn yn yr ysgol feithrin. Gellir gweld y GGD ar www.valeofglamorgan.gov.uk/fis <<http://www.valeofglamorgan.gov.uk/fis>>

Mae gan dudalen Facebook GGD bellach dros 3,000 o ddilynwyr ac y mae'n erfyn hanfodol i roi gwybodaeth i rieni a gofalwyr.

Ers cyhoeddi Asesiad Digonoldeb Gofal Plant Bro Morgannwg 2017, derbyniodd y GGD dros 8,500 o ymholiadau. Derbyniwyd y nifer uchaf o ymholiadau yn 2020 – 2021, oherwydd y pandemig COVID-19, pan wnaeth y GGD brosesu dros 400 cais am y Cynllun Cymorth Gofal Plant Coronafirws (CCAS), i ddod o hyd i ofal plant i weithwyr allweddol.

Diagram 1 – Nifer Ymholiadau i'r GGD o un flwyddyn i'r llall

Ffynhonnell: GGD y Fro 2022




Bob blwyddyn, mae'r ymholiadau yn dueddol o fod yn amrywiol eu natur. Fodd bynnag, bu'r rhan fwyaf o ymholiadau dros y 5 mlynedd diwethaf – ers cyhoeddi Asesiad Digonoldeb Gofal Plant Bro Morgannwg 2017 – am/ynghylch naill ai gofal plant (23%) neu'r Cynnig Gofal Plant (34%).

5 Galw Sylfaenol am Ofal Plant yn y Fro

5.1 Rhoddodd y 500 o rieni a gofaldwyr a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru yn 2022 adborth allweddol oedd yn cynnwys eu hymateb i gwestiwn: *Ydych chi'n rhagweld y bydd arnoch angen mwy neu lai o ofal plant yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?* Amlinellir eu hymateb cyfun yn Niagram 2 isod:

Diagram 2 - Ystyriaeth a fydd mwy neu lai o ofal plant yn cael ei gyrchu dros y 2 flynedd nesaf



Gofynnwyd i'r rhieni hynny a ddywedodd 'Mwy' hefyd nodi'r mathau o ofal plant y buasent yn ceisio eu cael trwy'r bwriad hwnnw, a'r tri amlaf oedd:

1. Clwb Cyn Ysgol/Brecwast – 64% o rieni perthnasol
2. Clwb Wedi'r Ysgol – 58% o rieni perthnasol
3. Meithrinfa Dydd – 47% o rieni perthnasol

5.2 Dengys Tabl 2 isod pa mor aml y dywedodd y rhieni/gofalwyr eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y tymor** yn hwyr yn 2021.

Tabl 2 – Amllder y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau arbennig o ofal plant yn ystod y tymor

Math o ofal plant cofrestredig neu heb gofrestru	Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Gwarchodwr plant	13%
Clwb Cyn Ysgol neu Glwb Brecwast	29%
Clwb Wedi'r Ysgol	20%
Meithrinfa Ddydd Breifat	37.5%
Meithrinfa Seiliedig ar yr Ysgol	9%
Grŵp Chwarae Sesiynol	7.5%
Cylch Meithrin	3.5%
Creche Gollwng Ymaith	0.5%
Nani	1%
Au-Pair	0
Teulu/cyfeillion (taledig)	3.5%
Teulu/cyfeillion (di-dâl)	52%
Dywedwyd <i>dim yn ystod y tymor</i>	10%

Hefyd, dengys Tabl 3 isod pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y gwyliau**.

Tabl 3 - Amllder y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau arbennig o ofal plant yn ystod y gwyliau

Math o ofal plant cofrestredig neu heb gofrestru	Canran rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd	% gwahaniaeth rhwng amser tymor
Gwarchodwr plant	13%	Dim newid
Clwb Gwyliau neu Gynllun Chwarae	17.5%	d/g
Meithrinfa Ddydd Breifat	33%	-4.5%
Ysgol Breifat cyn-baratoi	n/a	d/g
Grŵp Chwarae Sesiynol	4%	+3.5%
Cylch Meithrin	0.5%	-3%
Creche Gollwng Ymaith	0	Dim newid
Nani/Au-Pair	1%	Dim newid
Cynllun chwarae	5%	d/g
Teulu/cyfeillion (taledig)	2%	-1.5%
Teulu/cyfeillion (di-dâl)	54%	+2%
Dywedwyd <i>dim yn ystod gwyliau'r ysgol</i>	8.5%	1.5%

5.3 Yr oedd arolwg Llywodraeth Cymru o rieni yn 2021 yn gwahodd ei chynulleidfa darged i roi adborth am unrhyw rwystrau a ddaeth i'w rhan wrth geisio cyrchu gofal plant *o'u dewis hwy*. Crynhoir adborth cyfun y rhieni/gofalwyr yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4 – amllder rhesymau a roddwyd pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cyrchu/derbyn cefnogaeth gyda gofal plant yn hydref 2021

Rhesymau/Rhwystrau	Canran rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd
Plentyn ar restr aros am ddarparwr ac yr ydym yn aros am le	0
Nid oes gofal plant o ansawdd digon da	3.5%
Nid oes darpariaeth addas yn y Gymraeg	2%
Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, heb fod yn Gymraeg na Saesneg	0
Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i'm hanghenion	7%
Mae cost gofal plant yn rhy ddrud	14.5%
Mae amseroedd gofal plant yn anaddas	5%
Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas i oedran fy mhlentyn	5%
Mae problem gyda chludiant	1.5%
Nid oes gofal plant lle mae arnaf angen iddo fod	4%
Nid oes gofal plant all ymdrin â gofynion penodol fy mhlentyn	3%
Rwyf ond yn defnyddio gofal plant ar sail ad hoc ac y mae'n amhosib cynllunio	4%
Arall	2%

Yr oedd craffu pellach ar y data meintiol a gynhyrchwyd gan arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn dangos:

Mai'r tri **rhwystr yr adroddwyd amlaf amdanynt gan rieni oedd yn gweithio oedd** (yn nhrefn amllder)

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan 13.5% o rieni perthnasol)
2. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i ateb f'anghenion (5%)
3. Nid yw amseroedd gofal plant yn addas (5%)

Mai'r tri **rhwystr yr adroddwyd amlaf amdanynt gan rieni sydd yn amlwg yn chwilio am waith neu hyfforddiant** oedd:

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan 29% o rieni perthnasol)
2. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg i ateb f'anghenion (22%)
3. Mae problem gyda chludiant (15%)

Mai'r tri **rhwystr yr adroddwyd amlaf amdanynt gan rieni oedd mewn gwirionedd yn astudio neu'n hyfforddi** oedd:

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan 17% o rieni perthnasol)
2. Nid yw'r amseroedd gofal plant yn addas (12%)
3. Nid oes gofal plant o ansawdd digonol (9%)

Yn olaf, y tri **rhwystr yr adroddwyd amdanynt amlaf gan ofalwyr plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol** oedd:

1. Nid oes gofal plant a all ofalu am anghenion penodol fy mhlentyn (27% o rieni perthnasol) ac yna;
2. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (nodwyd gan 17% o rieni perthnasol)
3. Nid oes gofal plant o ansawdd digonol (nodwyd gan 15% o rieni perthnasol)

5.4 O safbwynt demograffig sylfaenol, **dywed rhagfynegiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fod poblogaeth Bro Morgannwg yn debyg o gynyddu o 6% yn ystod y cyfnod 2018-2028**. Mae'r un ffynhonnell yn amcangyfrif, o 2019-2039 y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu o 3.9% neu 5,501 o bobl.

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu, erbyn 2028 fe all fod rhyw 365 yn fwy o blant 0-4 oed yn byw yn y Fro a thua 838 yn fwy o blant 5-14 oed yn byw yn y Fro.